Archwilio Cymru
Audit Wales

# Gwella trefniadau llywodraethu ansawdd

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Ionawr 2026

# Amdanom ni

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004.


## © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei ailddefnyddio, mae'n rhaid i'ch ailddefnydd fod yn gywir ac mae'n rhaid nad yw mewn cyd-destun camarweiniol. Mae'n rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru ac mae'n rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw cyn ailddefnyddio.


## Os byddwch angen unrhyw gymorth gyda'r ddogfen hon

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os byddwch angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn fformat neu iaith amgen:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb i chi yn yr iaith yr ydych yn ei defnyddio.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddir gan Sefydliad Rhyngwladol y Goruchaf Sefydliadau Archwilio/International Organization of Supreme Audit Institutions (INTOSAI).

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Ciplun archwiliad | 4 |
| Ffeithiau a ffigurau allweddol | 7 |
| Ein canfyddiadau | 8 |
| Argymhellion | 18 |
| 1 Ynglŷn â'n gwaith | 21 |
| 2 Argymhellion blaenorol | 24 |
| 3 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn | 28 |
| 4 Ffurflen Ymateb y Rheolwyr | 31 |

# Ciplun archwiliad

## Yr hyn y gwnaethom edrych arno

1 Fe wnaeth ein hadolygiad asesu cynnydd a wnaed gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (y Bwrdd Iechyd) o ran gweithredu ein hargymhellion o archwiliad trefniadau llywodraethu ansawdd 2022. Ystyriodd gynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd i adolygu a gweithredu trefniadau corfforaethol i fodloni gofynion y Dyletswyddau o Ansawdd a Gonestrwydd newydd, a throsolwg a chraffu cysylltiedig.

## Pam mae hyn yn bwysig

2 Dylai ansawdd fod yn 'ganolog' i bob agwedd ar ofal iechyd a 'rhoi ansawdd a diogelwch' o flaen popeth arall yw un o'r gwerthoedd craidd sy'n sail i'r GIG yng Nghymru. Gall gofal iechyd o ansawdd gwael fod yn gostus o ran niwed, gwastraff, ac amrywiad.

3 Yn ystod 2021-22, fe wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol adolygu trefniadau llywodraethu ansawdd ar draws yr holl fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd yng Nghymru. Canfu ein Hadolygiad o'r Trefniadau Llywodraethu Ansawdd yn 2022 yn y Bwrdd Iechyd ei fod wedi ymrwymo i wella ei drefniadau llywodraethu ansawdd. Ond, er i ni ganfod bod y trefniadau llywodraethu ansawdd corfforaethol yn dangos cryfderau, roedd gwendidau sylweddol mewn trefniadau yn gorfforaethol ac mewn timau gweithredu.

4 Gwnaed wyth o argymhellion gennym, yn cwmpasu 13 o feysydd i'w gwella, a oedd yn canolbwyntio ar:

- reoli risg;
- archwilio clinigol;
- adolygiadau a dysgu o farwolaethau;
- gwerthoedd ac ymddygiad;

- adolygiadau arfarnu perfformiad a datblygiad;
- Fframwaith Ansawdd a Diogelwch;
- cyfrifoldeb ar y cyd am yr agenda ansawdd; ac
- adnoddau llywodraethu ansawdd.

5 Ym mis Mehefin 2020, daeth Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (y Ddeddf) i rym. Mae'r Ddeddf wedi cryfhau'r ddyletswydd i sicrhau gwelliannau ansawdd system gyfan. Cyflwynodd Ddyletswydd o Onestrwydd ar gyrff GIG hefyd, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt fod yn agored ac yn ones gyda defnyddwyr gwasanaeth pan fydd pethau'n mynd o'i le a rhoi gwersi a ddysgwyd ar waith.

## Yr hyn a ganfuwyd gennym

6 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd cryf o ran gweithredu ein hargymhellion o 2022. Mae hyfforddiant rheoli risg wedi gwella, a cheir craffu cryfach ar gofrestrau risg corfforaethol. Mae'r Bwrdd Iechyd bellach yn adrodd fel mater o drefn ar ddarpariaeth a chanlyniadau o weithgarwch archwilio clinigol, ac mae adolygiadau o farwolaethau a phrosesau dysgu wedi gwella hefyd. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi adolygu ei adnoddau llywodraethu ansawdd, wedi cryfhau arweinyddiaeth glinigol, ac wedi cynnig mwy o gyfleoedd hyfforddiant ansawdd i staff.

7 Fodd bynnag, mae angen i'r Fframwaith Ansawdd a Diogelwch fod yn fwy eglur am drefniadau gweithredu, wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r strwythur sefydliadol newydd. Hefyd, ceir cyfleoedd o hyd i gryfhau craffu gweithredol ar gofrestrau risg, i ymwreiddio'r fframwaith gwerthoedd ac ymddygiadau ar lefel weithredu ac i wella trefniadau i staff godi pryderon. Mae angen atgyfnerthu presenoldeb clinigol mewn grwpiau ansawdd a diogelwch allweddol, ac mae angen i gyfraddau cydymffurfiad adolygiadau arfarnu perfformiad a datblygiad gynyddu hefyd i fodloni targedau.

8 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd boddhaol o ran ymwreiddio'r dyletswyddau statudol o ansawdd a gonestrwydd. Mae mecanweithiau cynllunio strategol, ymrwymiad arweinyddiaeth, a llywodraethu ar waith. Fodd bynnag, mae angen i waith monitro'r niferoedd sy'n manteisio ar hyfforddiant staff ar y ddyletswydd o onestrwydd wella.

## Yr hyn a argymhellir gennym

9 Rydym wedi gwneud tri argymhelliad newydd i'r Bwrdd Iechyd, sy'n canolbwyntio ar:

- ddiweddaru'r fframwaith ansawdd a diogelwch;
- sicrhau presenoldeb clinigol mewn grwpiau ansawdd a diogelwch allweddol; a
- gwella cydymffurfiad â hyfforddiant dyletswydd o onestrwydd.

# Ffeithiau a ffigurau allweddol

- Rhoddir sylw i naw o 13 o feysydd i'w gwella yn deillio o'n gwaith yn 2022, â phedwar yn dal i fod ar y gweill.

- Cydymffurfiad o 73% ag Adolygiadau Arfarnu Perfformiad a Datblygiad ym mis Medi 2025, o'i gymharu â 60% ym mis Medi 2022.

- Lansiwyd Dangosfwrdd Ansawdd ym mis Mawrth 2024 sy'n defnyddio data byw i ddarparu data ward, gwasanaeth a sefydliadol ar ansawdd a diogelwch gofal.

- Derbyniodd dros 210 o aelodau staff hyfforddiant gwella ansawdd yn ystod 2024-25.

- Sbardunwyd y Ddyletswydd o Onestrwydd mewn 188 o ddigwyddiadau diogelwch cleifion yn 2024-25, bron i 1% o'r digwyddiadau a adroddwyd.

- Nodwyd bod 41 o 72 o achosion Dyletswydd o Onestrwydd a gwblhawyd yn 'niwed cymedrol neu uwch'.

# Ein canfyddiadau

## Gweithrediad argymhellion blaenorol

### Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu naw o'r 13 o feysydd i'w gwella o'n hadolygiad yn 2022 â'r meysydd sy'n weddill ar y gweill

#### Rheoli risg

10 Argymhellodd ein hadolygiad yn 2022 y dylai'r Bwrdd Iechyd ddarparu hyfforddiant ar draws y strwythur gweithredu i alluogi rheolwyr i nodi risgiau a diweddaru cofrestrau risg yn unol â pholisi corfforaethol. Rydym wedi canfod bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd sylweddol yn y maes hwn.

11 Erbyn mis Mawrth 2023, cwblhaodd tîm arweinyddiaeth pob grŵp gwasanaeth hyfforddiant i nodi risgiau a diweddaru'r cofrestrau risg yn unol â pholisi corfforaethol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu hyfforddiant pellach yn rhan o weithrediad y Strategaeth Rheoli Risg newydd a ddatblygwyd ym mis Tachwedd 2024, y mae'r Tîm Risg a Sicrwydd yn ei gyflwyno bellach.

12 I gryfhau trosolwg o gydymffurfiad â hyfforddiant, mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu integreiddio'r broses olrhain cydymffurfiad yn y system Cofnod Staff Electronig (Cofnod Staff Electronig). Hefyd, bydd y tîm Risg a Sicrwydd yn cyhoeddi canllawiau wedi'u hadnewyddu erbyn mis Mawrth 2026 i sicrhau bod gan staff safonau eglur a chyfredol.

13 Mae craffu corfforaethol ar gofrestrau risg wedi cryfhau ers ein hadolygiad yn 2022. Ym mis Ebrill 2025, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd adnewyddu ei Grŵp Rheoli Risg i ysgogi gwelliannau i ansawdd a chysondeb cofrestrau risg grwpiau gwasanaeth. Mae'r grŵp yn cynnal adolygiadau systematig ac yn gofyn am sicrwydd gan gyfarwyddwyr grwpiau gwasanaeth ynghylch trefniadau risg lleol, gan arwain at gofrestrau mwy eglur a chywir a sgorio cyson.

14 Ar lefel weithredol, mae grwpiau gwasanaeth yn adolygu ac yn diweddaru eu cofrestrau yn ystod cyfarfodydd ansawdd a diogelwch mater o drefn, ag adroddiadau grwpiau gwasanaeth yn bwydo i mewn i Grŵp Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd Iechyd. Mae'r Grŵp Ansawdd a Diogelwch yn dilysu sgorio ac yn uwchgyfeirio risgiau arwyddocaol. Fodd bynnag, canfu ein hadolygiad bod gwaith pellach i'w wneud i wella ansawdd cofrestrau risg gweithredol, o ran camau lliniaru a chyflawnrwydd.

15 Ar adeg ein gwaith, roedd y Bwrdd Iechyd yn adolygu ei drefniadau ar gyfer rheoli risgiau corfforaethol. Mae'n bwriadu cyflwyno Cofrestr Risg Gorfforaethol ar gyfer risgiau traws-sefydliadol a Chofrestr Risg Weithredu ar gyfer risgiau a uwchgyfeirir o grwpiau gwasanaeth. Mae'r rhain yn cael eu drafftio ar hyn o bryd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cwblhau'r gwaith hwn erbyn mis Ebrill 2026.

## Cynlluniau ac adroddiadau archwilio clinigol

16 Yn ystod ein hadolygiad yn 2022, ni wnaethom lwyddo i gael copi o gynllun archwilio clinigol diweddaraf y Bwrdd Iechyd. Rydym wedi canfod bod y Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei ddull archwilio clinigol ers hynny. Mae cynllun archwilio clinigol eglur y cytunwyd arno ar waith bellach.

17 Ym mis Mai 2024, cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio gynllun dwy flynedd sy'n cwmpasu archwiliadau cenedlaethol, corfforaethol, a lleol. Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd gysoni'r cynllun yn bendant â chofrestrau risg gweithredol, corfforaethol, a strategol, gan sicrhau bod archwiliadau yn targedu'r meysydd sydd cael yr effaith fwyaf.

18 Canfuwyd gennym yn flaenorol hefyd bod trosolwg o archwilio clinigol a marwolaethau yn brin. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mynd i'r afael â hyn hefyd. Mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch bellach yn derbyn diweddariadau ddwywaith y mis ar ganlyniadau archwilio clinigol a pherfformiad adolygu marwolaethau. Mae hyn yn welliant o'r adrodd blynyddol a ganfuwyd yn ein hadolygiad yn 2022. Fodd bynnag, rydym yn nodi yr adroddwyd yng nghyfarfod Pwyllgor Archwilio mis Medi 2025 mai 86% o gynllun archwilio 2023-24 oedd wedi'i gwblhau a dim ond 30% o gynllun 2024-26 oedd wedi'i gwblhau. Roedd y rhesymau am hyn yn aneglur ar adeg ein gwaith.

19 Hefyd, mae'r Bwrdd Iechyd yn cael diweddariadau rheolaidd ar ganlyniadau o'r cynllun archwilio clinigol. Mae Grŵp Canlyniadau ac Effeithiolrwydd Clinigol y Bwrdd Iechyd yn monitro cyflawniad y cynllun archwilio clinigol ac yn adrodd ar berfformiad adolygu marwolaethau. Yn rhan o agenda cyfarfodydd y Grŵp Canlyniadau ac Effeithiolrwydd Clinigol, ceir pwyslais eglur ar wersi a ddysgwyd. Mae'r grŵp hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ddwywaith y mis wedyn.

20 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu'r Fframwaith Dysgu o Farwolaethau Cenedlaethol[1] ac mae Adroddiad Archwilio ac Effeithiolrwydd Clinigol 2024-25 y Bwrdd Iechyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd dysgu. Y Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol sy'n arwain adolygiadau o farwolaethau ac mae'n cyflawni proses adolygu marwolaethau wythnosol gyda phanel amlddisgyblaeth. Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio dangosfwrdd marwolaethau i nodi unrhyw allanolynnau a mannau problemus.

## Gwerthoedd ac ymddygiadau

21 Ers ein hadolygiad yn 2022, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithio'n galed i gynyddu ymwybyddiaeth o'i fframwaith gwerthoedd ac ymddygiadau. Rydym wedi canfod bod y Bwrdd Iechyd wedi adnewyddu ymwybyddiaeth sefydliadol o'r gwerthoedd a'r ymddygiadau yn rhan o lansiad ei weledigaeth ddeng mlynedd, 'Un Bae ar y Cyd'.

[1] Canllawiau GIG y bwriedir iddynt safoni sut mae darparwyr gofal iechyd yn nodi, yn adrodd, yn ymchwilio, ac yn dysgu o farwolaethau cleifion i wella gofal ac atal marwolaethau yn y dyfodol.

22 Lansiodd Strategaeth Pobl newydd ym mis Ionawr 2024 hefyd. Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd hyrwyddo'r Strategaeth Pobl trwy gyfathrebu ar draws y sefydliad cyfan, gan gynnwys sesiynau briffio timau misol gyda'r tîm Swyddogion Gweithredol a negeseuon canol wythnos wythnosol. Fodd bynnag, mae'n cydnabod bod mwy i'w wneud i sicrhau bod gwerthoedd yn flaenllaw ym mhopeth y mae staff yn ei wneud yn y Bwrdd Iechyd, yn enwedig mewn timau gweithredu.

23 Ers ein hadolygiad gwreiddiol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud gwaith i ddeall pam roedd rhai aelodau staff yn teimlo nad oedd yn annog adrodd camgymeriadau, achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau ac nad oedd yn gweithredu mewn ymateb i bryderon. Roedd hyn yn cynnwys ymarferion gwrando gyda staff.

24 Mae hyn wedi arwain at waith ar draws y Bwrdd Iechyd i gynyddu amlygrwydd y trefniadau a'r cymorth. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi darparu hyfforddiant i reolwyr i gynorthwyo staff i godi pryderon ac mae gwybodaeth i staff ar gael ar y dudalen fewnrwyd. Mae Partneriaid Busnes Adnoddau Dynol yn cynnal ymarferion gwrando a bu ymweliadau Aelodau Bwrdd sicrhau ansawdd rheolaidd â mannau clinigol ers mis Mehefin 2025.

25 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi buddsoddi mewn amrywiaeth o ddulliau i gynorthwyo staff gan gynnwys:

- Hyb Codi Pryderon;
- Fframwaith Codi Llais Heb Ofn; a
- Gwasanaeth Gwarcheidwaid.

26 Fodd bynnag, canfu adroddiad Gwasanaeth Gwarcheidwaid ar gyfer 2023-24 fod 37.5% o staff wedi cysylltu â'r gwasanaeth gan eu bod wedi codi pryderon yn flaenorol ond na wrandawyd arnynt. Ym mis Ionawr 2025, canfu adroddiad Archwilio Mewn ar weithrediad y Fframwaith Codi Llais Heb Ofn sicrwydd cyfyngedig, ac roedd y broses codi pryderon a monitro, adolygu, a dadansoddi pryderon yn feysydd penodol y mae angen eu gwella.

27 Mewn ymateb, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud gwaith â phwyslais i annog staff i adrodd pryderon a magu hyder. Mae hyn yn cynnwys creu Cynllun Gweithredu Codi Llais Heb Ofn, Gweithgor Codi Llais Heb Ofn, cyflwyno Hyb Codi Pryderon, sioe deithiol i hyrwyddo'r Gwasanaeth Gwarcheidwaid a datblygu adnoddau hyfforddi. I wella'r ddealltwriaeth ar draws y sefydliad o ddigwyddiadau, mae grwpiau gwasanaeth hefyd yn darparu adroddiadau yn nodi manylion themâu, tueddiadau, gweithredoedd, a gwersi a ddysgwyd i'r Pwyllgor Gweithlu a Datblygu Sefydliadol.

## Adolygiadau Arfarnu Perfformiad a Datblygiad

28 Canfu ein hadolygiad yn 2022 fod cydymffurfiad ag Adolygiadau Arfarnu Perfformiad a Datblygiad yn isel. Argymhellwyd gennym fod angen cynllun eglur ar y Bwrdd Iechyd i wella perfformiad a chyflwyno dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio. Fodd bynnag, er gwaethaf cyfraddau gwell o adolygiadau arfarnu perfformiad a datblygiad, ni wnaeth y Bwrdd Iechyd gytuno ar gynllun cyffredinol na nodi pryd y byddai'n sicrhau cydymffurfiad llawn.

29 Mae adolygiadau arfarnu perfformiad a datblygiad wedi bod ar drywydd ar i fyny graddol, â rhywfaint o godi a gostwng. Ym mis Medi 2025, 73% oedd cydymffurfiad adolygiadau arfarnu perfformiad a datblygiad ar gyfer y Bwrdd Iechyd, sy'n welliant o'r sefyllfa o 60% yn 2022. Fodd bynnag, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cyrraedd y targed adolygiadau arfarnu perfformiad a datblygiad o 85% ers sawl blwyddyn. Ceir amrywiadau lleol o ran perfformiad o fewn y Bwrdd Iechyd, a dim ond dau o 18 o gyfarwyddiaethau wnaeth fodloni'r targed o 85% ym mis Medi 2025.

30 Mae cynlluniau gwella lleol ar waith i wella cyfraddau arfarnu staff. Mae Partneriaid Busnes Adnoddau Dynol yn darparu cymorth ychwanegol sy'n cyflawni gwelliannau (ee fe wnaeth y gyfarwyddiaeth Ystadau a Gwasanaethau Cymorth wella o 55% ym mis Mehefin 2024 i 74% ym mis Mawrth 2025 oherwydd cymorth partneriaid busnes).

31 Er gwaethaf y perfformiad, mae trefniadau monitro ar gyfer adolygiadau arfarnu perfformiad a datblygiad yn gryf. Yn gorfforaethol, mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Gweithlu a Datblygu Sefydliadol yn derbyn gwybodaeth am berfformiad o ran cydymffurfiad adolygiadau arfarnu perfformiad a datblygiad. Mae'r adroddiadau hyn yn nodi camau gweithredu byrdymor sydd ar waith i ysgogi gwelliant. Ar lefel weithredu, mae timau arweinyddiaeth bellach yn gallu olrhain lefelau cydymffurfiad ag arfarniadau drwy'r Dangosfwrdd Gweithlu. Mae hyn yn rhoi'r gallu i ddysgwyr ddod o hyd i feysydd problemus sydd angen sylw, gan alluogi ymyriadau wedi'u targedu.

## Fframwaith Ansawdd a Diogelwch

32 Canfu ein hadolygiad yn 2022 nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi rhoi'r Fframwaith Ansawdd a Diogelwch ar waith, er ei fod wedi ei ddatblygu. Roedd angen ail-lansio'r fframwaith ar ôl dysgu o COVID-19, i roi eglurder ynghylch y disgwyliadau ansawdd â dull wedi'i gryfhau o adrodd ar gydymffurfiad.

33 Ym mis Mai 2024, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd adnewyddu ac ail-lansio ei Fframwaith Ansawdd a Diogelwch. Diweddarwyd fframwaith y Bwrdd Iechyd i adlewyrchu'r Ddyletswydd o Ansawdd a Gonestrwydd newydd. Mae'r fframwaith hwn yn cyflwyno'n eglur y trefniadau llywodraethu ansawdd ar draws y Bwrdd Iechyd, ond mae'n parhau i beidio â mynd mor bell â disgrifio'r trefniadau ansawdd gweithredu a llywodraethu diogelwch yn fanwl. Ceir diffyg eglurder yn y maes hwn o hyd. Wrth i'r Bwrdd Iechyd symud i'w strwythur sefydliadol newydd yn dilyn gweithrediad ei raglen 'trefnu ar gyfer llwyddiant', bydd angen iddo ailystyried y fframwaith.[2]

34 Mae trefniadau ar waith i fonitro gweithrediad y fframwaith ar draws y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys trwy Gynllun Gweithredu'r Strategaeth Ansawdd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn adrodd ar gynnydd bob chwarter i'r Grŵp Ansawdd a Diogelwch, sy'n darparu adroddiadau uchafbwyntiau i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.

[2] Trefnu ar gyfer Llwyddiant yw un o raglenni blaenoriaeth y Bwrdd Iechyd a fydd yn cynnwys adolygiad ac ailddyluniad cynhwysfawr o strwythurau sefydliadol.

## Cyfrifoldeb ar y cyd am yr agenda ansawdd

35 Er i'n hadolygiad yn 2022 adrodd cyfrifoldeb ar y cyd am ansawdd a diogelwch ymhlith y tîm gweithredol, roedd gorddibyniaeth ar arweinwyr nyrsio yn bwrw ymlaen â'r agenda ansawdd mewn isadrannau.

36 Rydym wedi canfod bod cyfrifoldeb ar y cyd cryf o hyd am ansawdd a diogelwch ymhlith y tîm gweithredol. Ar lefel weithredu, ceir pwyslais gwell mewn grwpiau gwasanaeth yn eu cyfarfodydd ansawdd a diogelwch. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi penodi arweinydd clinigol ar gyfer gwella ansawdd ar sail sesiynol yn ddiweddar. Mae'r arweinydd clinigol yn darparu arbenigedd ac arweinyddiaeth gan hybu gwelliant ansawdd ar draws y Bwrdd Iechyd, â phwyslais allweddol ar wasanaethau clinigol.

37 Mae Grŵp Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am weithredu system rheoli ansawdd effeithiol ar draws y sefydliad. Ceir cynrychiolaeth briodol o'r grŵp gwasanaeth meddygol a nyrsio yn y cylch gorchwyl ar gyfer y grŵp.

38 Fodd bynnag, mae cofnodion o'r chwe chyfarfod a gynhaliwyd gan y Grŵp Ansawdd a Diogelwch yn ystod 2025 yn dangos nad oedd y grŵp yn gwneud cworwm ar o leiaf tri achlysur, oherwydd y ffaith nad oedd Cyfarwyddwyr Nyrsio a/neu Feddygol o grwpiau gwasanaeth yn bresennol. I gryfhau cyfrifoldeb clinigol cyfunol am ansawdd a diogelwch ymhellach, dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod presenoldeb Cyfarwyddwyr Nyrsio a Meddygol yn gyson.

## Adnoddau llywodraethu ansawdd

39 Ers ein hadolygiad yn 2022, mae'r Bwrdd Iechyd wedi adolygu ei adnoddau i gefnogi trefniadau llywodraethu ansawdd. O ganlyniad, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd integreiddio'r timau gwella ansawdd corfforaethol a sicrhau ansawdd yn un tîm sy'n gyfrifol am system rheoli ansawdd y Bwrdd Iechyd. Fe wnaeth hyn hefyd alluogi Hyb Ansawdd, Diogelwch, a Gwelliant i gael ei greu.

40 Nod yr hyb yw gwella triongli materion yn ymwneud ag ansawdd a diogelwch, arwain y Fframwaith Ansawdd a Diogelwch a darparu gallu ychwanegol i'r Bwrdd Iechyd nodi risgiau. Mae'r Academi Hyfforddiant Gwella Ansawdd hefyd yn rhan o'r Hyb. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gallu gwella faint o hyfforddiant Gwella Ansawdd sydd ar gael i ddatblygu ac ehangu'r sgiliau hyn ar draws y sefydliad o ganlyniad.

41 I hwyluso rhannu ar draws y sefydliad, mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Phrofiad Cleifion yn cyfarfod ar y cyd ag arweinwyr ansawdd a diogelwch grwpiau gwasanaeth unwaith y chwarter. Mae'r cyfarfodydd hyn yn canolbwyntio r flaenoriaethau ansawdd a chyfleoedd ar gyfer rhannu syniadau a dysgu. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi creu rhai cyfleoedd ar gyfer digwyddiadau rhwydweithio yn ymwneud ag ansawdd, gan gynnwys y Fforwm Gwella Ansawdd a'r Gyngres Diogelwch Cleifion.

# Ymateb i'r Dyletswyddau o Ansawdd a Gonestrwydd

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau rhesymol i weithredu'r dyletswyddau o ansawdd a gonestrwydd, ond ceir lle i wella cydymffurfiad a monitro hyfforddiant

42 Daeth Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) 2020 i rym ar 1 Ebrill 2023. Cyn ei chyflwyno, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd asesu ei barodrwydd ar gyfer cydymffurfio â'r Ddeddf yn erbyn safbwynt sylfaenol Llywodraeth Cymru.

43 Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd fynegi dull eglur o weithredu'r ddwy ddyletswydd statudol. Roedd cynllun gweithredu eglur, ac roedd trefniadau ar waith i oruchwylio'r gweithrediad gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen a oedd yn cynnwys diweddariadau rheolaidd ar gynnydd i'r Grŵp Diogelwch Cleifion a Chydymffurfiad, gan olrhain cerrig milltir allweddol. Mae aelodau'r Bwrdd wedi derbyn sesiynau datblygu i'w helpu i ddeall eu cyfrifoldebau o dan y ddwy ddyletswydd.

44 Mae gan y Bwrdd Iechyd gyfrifoldebau arweinyddiaeth wedi'u diffinio'n eglur am ansawdd a gonestrwydd. Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Phrofiad Cleifion yn arwain ar y ddwy ddyletswydd statudol. Mae arweinwyr Grwpiau Gwasanaeth hefyd yn cymryd rhan weithredol mewn darpariaeth weithredu. Ceir nawdd cryf gan swyddogion gweithredol o fecanweithiau diwylliant sefydliadol fel Codi Llais Heb Ofn, ac mae staff yn defnyddio'r Fframwaith Ansawdd a Diogelwch i lunio cyflwyniadau, trafodaethau perfformiad, ac adroddiadau sicrwydd.

45 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud gwaith sylweddol i godi ymwybyddiaeth staff o'r ddwy ddyletswydd. Ceir polisïau a gweithdrefnau wedi'u diffinio'n eglur ar gyfer bodloni gofynion y Ddyletswydd o Onestrwydd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn nodi'n weithredol ac yn cymryd camau i leihau'r perygl y bydd digwyddiadau Dyletswydd o Onestrwydd yn codi dro ar ôl tro. Rhennir gwersi a ddysgwyd ac arferion da yn weithredol.

46 Mae pecyn hyfforddiant staff ar y Ddyletswydd o Onestrwydd hefyd ar gael drwy'r Cofnod Staff Electronig, â data cwblhau yn cael eu monitro. Nid oeddem yn gallu asesu faint o staff sydd wedi cwblhau'r pecyn hyfforddi hwn. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod bod angen iddo wella'r nifer sy'n manteisio arno.

47 Lansiodd y Bwrdd Iechyd ei weledigaeth strategol ar gyfer ansawdd yn ei Strategaeth Ansawdd bum mlynedd ym mis Mawrth 2023. Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd adnewyddu ac ail-lansio'r Fframwaith Ansawdd a Diogelwch ym mis Mai 2024, i gefnogi darpariaeth y Strategaeth Ansawdd ar draws y sefydliad. Trwy wneud hynny, cyflwynodd ddisgwyliadau a chyfrifoldebau o ran y dyletswyddau o ansawdd a gonestrwydd.

48 Mae Adroddiad Ansawdd Blynyddol 2024-25 ac Adroddiad Dyletswydd o Onestrwydd Blynyddol 2025 yn cynnig dadansoddiad o wybodaeth ansawdd a gonestrwydd ar gyfer y flwyddyn. Caiff perfformiad mater o drefn ei fonitro gan y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a'r Grŵp Diogelwch Cleifion a Chydymffurfiad ddwywaith y mis.

49 Ar lefel weithredu, mae is-adrannau yn bwydo gwybodaeth i Grŵp Ansawdd a Diogelwch grŵp gwasanaeth, â thempled sefydlog yn cwmpasu elfennau ansawdd allweddol, gan gynnwys eitem pryderon a diweddariad Dyletswydd o Onestrwydd.

50 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i hyrwyddo diwylliant o fod yn agored, dysgu a grymuso staff. Fodd bynnag, mae'n cydnabod bod mwy o waith i'w wneud. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ddatblygu ei adrodd ac mae wedi datblygu dulliau adrodd amser real i gynnig gwybodaeth i dimau gweithredu am berfformiad ansawdd gan gynnwys y Ddyletswydd o Onestrwydd.

# Argymhellion

51 Rydym wedi gwneud tri argymhelliad newydd yn seiliedig ar ein gwaith dilynol.

52 Nodir statws argymhellion 2022 yn **Atodiad 2**.

**Fframwaith Ansawdd a Diogelwch**

**A1** **Dylai'r Bwrdd Iechyd ddiweddaru ei Fframwaith Ansawdd a Diogelwch i adlewyrchu ei strwythur sefydliadol newydd. Dylai'r fframwaith nodi'r trefniadau o'r 'llawr i'r bwrdd' i sicrhau dull cyson o ymdrin ag ansawdd a diogelwch ar draws y sefydliad.**

**Presenoldeb Ansawdd a Diogelwch**

**A2** Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod presenoldeb cyson yng Ngrŵp Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd Iechyd gan Gyfarwyddwyr Nyrsio a Meddygol i gryfhau cyfrifoldeb ar y cyd am yr agenda ansawdd.

### E-ddysgu’r Ddyletswydd o Onestrwydd

**A3** Mae’n rhaid i’r Bwrdd Iechyd fonitro ac adrodd ar gyfraddau cwblhau ar gyfer modiwl hyfforddiant e-ddysgu’r Ddyletswydd o Onestrwydd fel mater o drefn.

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â’n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Rydym wedi asesu pa un a:

- yw’r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu argymhellion archwilio blaenorol yn seilio o’n hadolygiad o’i drefniadau llywodraethu ansawdd yn 2022 a’i fod yn gwireddu’r canlyniadau a’r buddion a fwriedir o’r argymhellion hynny; ac
- a oes dull corfforaethol cadarn o oruchwylio a chraffu ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau yn unol â gofynion y Ddyletswydd o Ansawdd a’r Ddyletswydd o Onestrwydd.

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

### Cwestiynau

Rhoddodd ein harchwiliad sylw i’r cwestiynau canlynol:

- A yw’r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei reolaeth o risg ar lefel weithredu?
- A oes gan y Bwrdd Iechyd gynllun archwilio clinigol cyfredol, sydd wedi’i gymeradwyo ac yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor Archwilio?
- A oes gan Bwyllgor Diogelwch ac Ansawdd y Bwrdd Iechyd drosolwg o’r dysgu o adolygiadau clinigol ac o farwolaethau?
- A yw’r Bwrdd Iechyd yn hyrwyddo ei Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau yn weithredol?
- A yw’r Bwrdd Iechyd wedi gwella cydymffurfiad ag adolygiadau arfarnu perfformiad a datblygiad?
- A yw’r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu ei Fframwaith Ansawdd a Diogelwch i sicrhau ei fod yn gweithio fel y bwriadwyd ac yn mynegi ei strwythurau corfforaethol i roi sicrwydd ‘llawr i’r Bwrdd’?

- A yw'r Bwrdd Iechyd wedi sicrhau bod cyfrifoldeb ar y cyd am Ansawdd a Diogelwch ar draws y tîm gweithredol clinigol?
- A oes digon o adnoddau i gefnogi trefniadau llywodraethu ansawdd, ac a yw adnoddau gweithredu yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol?
- A yw'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau cymryd camau i weithredu'r Ddyletswydd o Ansawdd a'r Ddyletswydd o Onestrwydd?

### Meini prawf

Wrth gasglu tystiolaeth yn erbyn y cwestiynau uchod, roeddem eisiau i'r Bwrdd Iechyd ddangos ei fod:

- wedi gwneud y cynnydd a ddisgwyliwyd o ran gweithredu argymhellion ein harchwiliad yn 2022 (a nodir yn **Atodiad 2)** i fynd i'r afael â'r problemau a'r pryderon a nodwyd yn yr archwiliad gwreiddiol; ac
- yn gweithredu gofynion Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (y Ddeddf) o ran y Dyletswyddau o Ansawdd ac o Onestrwydd.

## Dulliau

Gwnaed ein gwaith archwilio rhwng Gorffennaf a Hydref 2025.

Adolygwyd y dogfennau allweddol canlynol gennym:

- Fframweithiau ansawdd;
- Adroddiadau archwilio mewnol perthnasol;
- Strategaeth Ansawdd Pum Mlynedd;
- Strategaeth Rheoli Risg;
- Strategaeth Pobl;
- Polisïau a gweithdrefnau, gan gynnwys Gweithio i Wella a Rheoli Pryderon;
- Cynllun, cofrestr ac adroddiadau sicrwydd risg;
- Cynllun archwilio clinigol ac adroddiadau perthnasol;

- Adroddiadau blynyddol perthnasol, gan gynnwys adroddiadau Archwilio ac Effeithiolrwydd Clinigol, y Gwasanaeth Gwarcheidwaid a'r Dyletswyddau o Onestrwydd ac Ansawdd Blynyddol; ac
- Adroddiadau pwyllgor, gan gynnwys adroddiadau Sicrhau Ansawdd a Pherfformiad.

Cyfwelwyd y canlynol gennym:

- Y Cyfarwyddwyr Nyrsio a Phrofiad Cleifion;
- Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol;
- Y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol;
- Y Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol Gweithredol;
- Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddor Iechyd;
- Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol ac Ysgrifennydd y Bwrdd;
- Cyfarwyddwr Nyrsio Grŵp Gwasanaeth Treforys;
- Cyfarwyddwr Grŵp Gwasanaeth Treforys;
- Cyfarwyddwr Meddygol Grŵp Gwasanaeth Treforys;
- Cyfarwyddwr Nyrsio Grŵp Gwasanaeth Singleton a Chastell-nedd Port Talbot;
- Cyfarwyddwr Grŵp Gwasanaeth Singleton a Chastell-nedd Port Talbot; a
- Chyfarwyddwr Meddygol Grŵp Gwasanaeth Singleton a Chastell-nedd Port Talbot.

Fe wnaethom hefyd ofyn i'r Bwrdd Iechyd gwblhau a chyflwyno hunanasesiad, yn nodi ei safbwynt ar gynnydd yn erbyn argymhellion 2022. Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd hunanasesiad wedi'i gwblhau ar 3 Gorffennaf 2025.

# 2 Argymhellion blaenorol

Gwnaed yr argymhellion canlynol gennym yn 2022 yn dilyn ein hadolygiad o drefniadau llywodraethu ansawdd y Bwrdd Iechyd. Rydym wedi amlygu statws yr argymhellion hyn yn seiliedig ar ein hadolygiad dilynol.

**Rheoli Risgiau**

**A1** Mae'r dull a ddefnyddir gan reolwyr gweithredol i reoli risgiau yn anghyson ac mae cofrestrau risgiau yn anghyflawn yn aml, gan golli camau lliniaru cadarn. Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei reolaeth o risgiau ar lefel weithredol drwy:

a) ddarparu hyfforddiant i reolwyr ar draws y strwythur gweithredol i'w galluogi i nodi'n glir y risgiau y maent yn gyfrifol amdanynt a diweddaru cofrestrau risgiau yn unol â pholisïau corfforaethol (**Wedi'i gwblhau – paragraff 11**); a

b) sicrhau y creffir yn ddigonol ar gofrestrau risgiau, ar lefel weithredol ac yn y grŵp rheoli risgiau (**Ar y gweill – paragraff 13**).

**Datblygu cynllun archwilio clinigol**

**A2** Yn ystod ein hadolygiad, nid oedd modd i ni gael copi o gynllun archwilio clinigol diweddaraf y Bwrdd Iechyd. Dylai'r Bwrdd Iechyd lunio cynllun archwilio clinigol ar gyfer 2021–22 sy'n cwmpasu archwiliadau cenedlaethol mandadol ac archwiliadau lleol sy'n cael eu llywio gan feysydd risg. Dylai'r cynllun hwn gael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a dylid monitro'r cynnydd yn rheolaidd wrth ei gyflawni (**Wedi'i gwblhau – paragraff 16**).

### Amlder adrodd ar archwiliadau a marwolaethau clinigol

**A3** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu Grŵp Canlyniadau ac Effeithiolrwydd Clinigol sy'n rhoi sicrwydd ar ganlyniadau archwiliadau a marwolaethau clinigol, ond ar hyn o bryd, mae'r wybodaeth hon yn cael ei throsglwyddo drwy'r Grŵp Llywodraethu Ansawdd a Diogelwch ac yn ei rinwedd ei hun, dim ond unwaith y flwyddyn y caiff ei hadrodd i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu'r amlder hwn fel yr adroddir yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd wrth gyflawni'r cynllun archwilio clinigol, a dysg gysylltiedig o adolygiadau marwolaethau i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn amlach (**Wedi'i gwblhau – paragraff 18)**

### Gwerthoedd ac ymddygiad

**A4** Mae gan y Bwrdd Iechyd fframwaith gwerthoedd ac ymddygiad sefydledig sy'n hybu diwylliant agored a dysgu, ond nid yw'r staff yn ymwybodol o'r gwerthoedd ac ymddygiad bob amser, ac mae rhai aelodau o staff nad ydynt yn cydnabod diwylliant sy'n hybu dysgu o wallau bob amser. Dylai'r Bwrdd Iechyd:

a) adnewyddu yr ymwybyddiaeth sefydliadol o'r fframwaith gwerthoedd ac ymddygiad, fel bod y gwerthoedd ar reng flaen popeth y mae'r staff yn ei wneud yn y Bwrdd Iechyd (**Ar y gweill – paragraff 21**); ac

b) ymgymryd â gwaith i ddeall pam mae rhai aelodau o staff yn teimlo nad yw'r Bwrdd Iechyd yn annog adrodd gwallau, damweiniau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau, ac nad yw'n gweithredu mewn ymateb i bryderon (**Wedi'i gwblhau – paragraff 23**).

**Adolygiad Arfarnu Perfformiad a Datblygu**

**A5** Canfu ein gwaith fod cydymffurfedd ag Adolygiadau Arfarnu Perfformiad a Datblygu yn y grwpiau gweithredol a archwiliwyd gennym yn isel. Er ein bod yn cydnabod pwysau COVID-19 ar allu'r Bwrdd Iechyd i wella perfformiad yn y maes hwn, mae'r adolygiadau hyn yn agwedd bwysig ar ddatblygiad y staff. Dylai'r Bwrdd Iechyd sefydlu cynllun i wella perfformiad sy'n nodi pryd y gellir cyflawni cydymffurfedd yn llawn. Mae angen monitro'r cynllun hwn ar lefel y Gweithredwyr a'r pwyllgor (**Ar y gweill – paragraff 28**).

**Dylunio gweithredol er mwyn cefnogi llywodraethu effeithiol**

**A6** Er gwaethaf y gwaith o ddatblygu Fframwaith Ansawdd a Diogelwch ym mis Ionawr 2021, nid yw wedi ei gyflwyno ar draws y Bwrdd Iechyd eto. Mae'r fframwaith yn nodi'r broses a ddefnyddir gan y Bwrdd Iechyd i sicrhau ei hun bod gwasanaethau o ansawdd uchel a'u bod nhw'n ddiogel i bawb. Dylai'r Bwrdd Iechyd:

a) adnewyddu'r fframwaith yng ngoleuni dysg o bandemig COVID-19 (**Wedi'i gwblhau – paragraff 32**);
b) ail-lansio'r fframwaith, a rhoi eglurder ar y trefniadau llywodraethu ansawdd sydd i'w disgwyl yn y Bwrdd Iechyd (**Wedi'i gwblhau – paragraff 33)**; ac
c) monitro cydymffurfedd â gweithredu'r fframwaith ar draws y sefydliad (**Wedi'i gwblhau – paragraff 33**).

**Sicrhau y derbynnir cyfrifoldeb ar y cyd am yr agenda ansawdd a diogelwch**

**A7** Canfu ein gwaith, er bod cyfrifoldeb ar y cyd am ansawdd a diogelwch ymhlith y tîm gweithredol, fod gorddibyniaeth ar nyrsys arwain i hybu'r agenda ansawdd mewn is-adrannau. Dylai'r Bwrdd Iechyd geisio sicrhau bod gweithwyr proffesiynol clinigol eraill yn y timau gweithredol yn cymryd swyddogaeth weithredol mewn trefniadau llywodraethu ansawdd (**Ar y gweill – paragraff 36**).

**Adnoddau i gefnogi llywodraethu o ansawdd**

**A8** Prin yw'r adnoddau corfforaethol i gefnogi llywodraethu o ansawdd ac mae adnoddau gweithredol yn gweithio ar wahân. Dylai'r Bwrdd Iechyd:

a) adolygu adnoddau a gofynion cyfredol i gefnogi'r dasg o wella ansawdd ar lefel gorfforaethol, grŵp gwasanaeth ac ar lefel rhanbarthol (**Wedi'i gwblhau – paragraff 39**); a
b) ceisio gwneud y mwyaf o botensial yr adnoddau gweithredol drwy ddatblygu cyfleoedd i ddod ag adnoddau at ei gilydd, naill ai drwy drefniadau rhwydwaith neu newidiadau mewn llinellau atebolrwydd (**Wedi'i gwblhau – paragraff 39**).

# 3 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| **Archwiliad clinigol** | Y broses sydd â'r nod o wella gofal a chanlyniadau cleifion trwy adolygiad systematig o ofal yn erbyn meini prawf pendant a chyflawni newid. |
| **Y Grŵp Canlyniadau ac Effeithiolrwydd Clinigol** | Is-bwyllgor i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch sy'n rhoi sicrwydd bod systemau ar gyfer archwilio clinigol ac adolygiadau o farwolaethau yn effeithiol ac yn cefnogi gofal diogel o ansawdd uchel. |
| **Dyletswydd o Onestrwydd** | Gofyniad cyfreithiol yw'r Ddyletswydd o Onestrwydd i sefydliadau GIG Cymru fod yn agored ac yn ones gyda defnyddwyr gwasanaeth pan fydd niwed yn digwydd yn ystod eu gofal. Mae hyn yn cynnwys cyfathrebu â'r claf, ymchwilio i'r digwyddiad, a dysgu ohono i'w atal rhag digwydd eto yn y dyfodol. |
| **Dyletswydd o Ansawdd** | Rhwymedigaeth gyfreithiol ar sefydliadau GIG Cymru yw'r Ddyletswydd o Ansawdd i wella ansawdd gwasanaethau a chanlyniadau gofal iechyd i bobl Cymru. Mae'r Ddyletswydd yn gofyn am bwyslais ar ansawdd ym mhob penderfyniad strategol a monitro parhaus o gynnydd o ran gwella ansawdd. |

| Term | Disgrifiad |
| --- | --- |
| **Gwasanaeth Gwarcheidwaid** | Gwasanaeth gwrando cyfrinachol annibynnol a gyflwynwyd yn y Bwrdd Iechyd ym mis Mai 2019. |
| **Y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch** | Un o bwyllgorau'r Bwrdd sy'n rhoi sicrwydd a chyngor i'r Bwrdd bod y Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei gyfrifoldebau am ansawdd a diogelwch gofal iechyd. |
| **Y Grŵp Ansawdd a Diogelwch** | Grŵp llywodraethu gweithredol allweddol sy'n gyfrifol am weithredu system rheoli ansawdd effeithiol ar draws y sefydliad. |
| **Llywodraethu ansawdd** | Y cyfuniad o strwythurau, prosesau, ac ymddygiadau a ddefnyddir gan sefydliad, yn enwedig ei fwrdd, i arwain ar berfformiad o ansawdd uchel a'i sicrhau, gan gynnwys diogelwch, effeithiolrwydd, a phrofiad cleifion. |
| **Hyb Codi Pryderon** | Gwefan ar-lein sy'n darparu gwasanaethau a chymorth wedi'u cyfeirio i staff. Mae hyn yn cynnwys pecyn codi pryderon a phosteri â chodau QR. |
| **Y Grŵp Rheoli Risg** | Is-grŵp i'r Bwrdd Rheoli sy'n gyfrifol am oruchwylio a gwella trefniadau ar gyfer rheolaeth weithredol o risg sefydliadol. |
| **Codi Llais Heb Ofn** | Fframwaith diwylliannol sydd â'r nod o greu amgylchedd lle mae unigolion yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus i godi pryderon am faterion fel diogelwch cleifion, ansawdd gofal, a bwlio yn y |

| Term | Disgrifiad |
| --- | --- |
| | gweithle heb ofni erledigaeth neu driniaeth niweidiol. |

# 4 Ffurflen Ymateb y Rheolwyr

| Cyf | Argymhelliad | Sylwadau ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| A1 | **Fframwaith Ansawdd a Diogelwch**<br>Dylai'r Bwrdd Iechyd ddiweddaru ei Fframwaith Ansawdd a Diogelwch i adlewyrchu ei strwythur sefydliadol newydd. Dylai'r fframwaith nodi'r trefniadau o'r 'llawr i'r bwrdd' i sicrhau dull cyson o ymdrin ag ansawdd a diogelwch ar draws y sefydliad. | Bydd y Bwrdd Iechyd yn diwygio ei Fframwaith llywodraethu ansawdd a diogelwch i sicrhau system rheoli ansawdd effeithiol sy'n adlewyrchu'r trefniadau gweithredu newydd i'w cyflwyno o dan Trefnu ar gyfer Llwyddiant. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn parhau ein hymgysylltiad â gwaith cenedlaethol i ddatblygu system rheoli ansawdd ac yn diwygio'r Fframwaith Ansawdd, Diogelwch a Gwelliant i adlewyrchu canlyniad y gwaith hwn. | Mawrth 2027 | Y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Phrofiad Cleifion<br>Y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **A2** | **Presenoldeb Ansawdd a Diogelwch**<br><br>Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod presenoldeb cyson yng Ngrŵp Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd Iechyd gan Gyfarwyddwyr Nyrsio a Meddygol i gryfhau cyfrifoldeb ar y cyd am yr agenda ansawdd. | Bydd y Bwrdd Iechyd yn cryfhau presenoldeb clinigol mewn grwpiau ansawdd a diogelwch allweddol drwy'r camau gweithredu canlynol:<br><br>1. Adolygu'r cylch gorchwyl ar gyfer y Grŵp Ansawdd a Diogelwch ymlaen i adlewyrchu'r newidiadau a gyflwynwyd o dan Trefnu ar gyfer Llwyddiant ac i sicrhau cyfrifoldeb ar draws swyddogion clinigol gweithredol a phrosesau ar gyfer uwchgyfeirio am beidio ag ymgysylltu. | Medi 2026 | Y Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol/ Y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol/<br><br>Cyfarwyddwr Gweithredol Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddorau Iechyd |
| | | 2. Swyddogion Clinigol Gweithredol i gyfarfod â'u grwpiau proffesiynol mewn grwpiau gwasanaeth i'w hatgoffa o'u cyfrifoldebau o fewn cylch gwaith y Grŵp Ansawdd a Diogelwch. | Ebrill 2026 | Y Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol/ Y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol/<br><br>Cyfarwyddwr Gweithredol Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddorau Iechyd |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwadau ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| **A3** | **E-ddysgu'r Ddyletswydd o Onestrwydd**<br><br>Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd fonitro ac adrodd ar gyfraddau cwblhau ar gyfer modiwl hyfforddiant e-ddysgu'r Ddyletswydd o Onestrwydd fel mater o drefn. | 1. Adrodd tri misol i Grŵp Diogelwch Cleifion a Chydymffurfiad y Grŵp Ansawdd a Diogelwch am gyfanswm y staff sy'n cwblhau hyfforddiant. | Hydref 2026 | Pennaeth Sicrwydd Pryderon |

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd ar gyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â rhai cynghorau a chyrff llywodraeth leol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gynorthwyo, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân â'r swyddogaethau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.